


Gweithgareddau i bawb

Gweithgareddau neu wybodaeth sy'n cynnwys llai o destun a mwy o strwythur. Mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys symbolau i helpu cyfathrebu. Gall y gweithgareddau yma fod yn addas i blant mewn ysgolion cynradd neu grwpiau cymunedol. Mae'r gweithgareddau wedi'u llunio hefyd i roi rhywfaint o strwythur i gynnal dysgwyr hŷn, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i rai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd hyn yn helpu

cynghorau ysgol a grwpiau cyfranogiad cymunedol eraill



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales




Byddwch yn greadigol


Gweithredu fel grŵp





Dyma pryd mae grŵp yn gwneud rhywbeth corfforol yn gyhoeddus.



Gallen nhw fod yn dawnsio, yn canu neu'n actio.




Bwriad hynny yw tynnu sylw at rywbeth pwysig.



e.g.

Cliciwch yma am rai enghreifftiau.

Geiriau



Mae llawer o ganeuon wedi cael eu hysgrifennu i newid rhywbeth.



Hefyd mae pobl wedi ysgrifennu cerddi neu rapiau.

e.g.

Dyma rai enghreifftiau:

Caneuon

'Where is the Love?' gan The Black Eyed Peas

'Imagine' gan John Lennon

'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan

Cerddi

'First They Came...' gan Martin Niemoller

'Caged Bird' gan Maya Angelou

'Help' - gan Casia Wiliam



Llyfrau a Ffilmiau



Gallwch chi




ysgrifennu




stori

am



eich



profiad.




Gallwch chi




greu ffilm

am



eich



profiad.



Mae storiâu'n



helpu




pobl



deall




pam mae




eraill




eisiau



creu newid.



Cliciwch



yma

am rai

e.g.

enghreifftiau.

Poster




Gall poster



dynnu sylw

at y peth rydych



chi



eisiau



ei newid.



Gallwch chi



arddangos




y poster

rhywle



bydd llawer o bobl

yn gallu



ei weld.



Mae'n well

creu



poster



lliwgar

fel bod



y poster

yn




tynnu sylw.






Creu baner




Mae baner yn ffordd dda o ddweud wrth bobl am rywbeth pwysig.



Mae baner yn fawr fel bod llawer o bobl yn gallu gweld y faner.

1





1. Penderfynwch pa neges rydych chi eisiau ysgrifennu ar eich





baner.

2




2. Gwnewch eich neges yn glir fel bod pobl eraill yn deall.

3




3. Gwnewch i'ch neges sefyll allan yng nghanol baneri eraill.







Syniadau ar gyfer Creu Baner




- Defnyddiwch symbolau neu luniau.





- Gwnewch y neges yn ddoniol.



- Defnyddiwch neges o ffilm neu lyfr enwog.



- Defnyddiwch rigwm neu gân enwog.



- Defnyddiwch wahanol liwiau ar eich baner.

Gweithgareddau estynedig

Mae rhain yn defnyddio mwy o destun,
ac yn cynnwys mwy o wybodaeth fanwl a
llai o strwythur cynnal ar gyfer
gweithgareddau. Efallai bydd yr
adnoddau yma'n addas ar gyfer pobl
ifanc mewn lleoliadau ysgol uwchradd,
lleoliadau Addysg Bellach, neu grwpiau
cyfranogiad a grwpiau cymunedol i bobl
ifanc. Byddan nhw'n helpu cyngorau
ysgol uwchradd a grwpiau eraill llais y
disgybl mewn ysgolion uwchradd.



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Syniadau Gwych ar gyfer Baneri

Mae baneri yn ffordd allweddol o gyflwyno'ch neges os ydych chi am ddod at eich gilydd i godi eich llais mewn ffordd heddychlon. Isod, cewch chi awgrymiadau gwych ar sut mae sicrhau bod eich neges yn cael ei chyfleu yn glir.

Creu eich baner:

- Gallwch chi greu baner allan o lawer o wahanol ddeunyddiau (mae cardbord yn gweithio'n dda)
- Dylech chi ddefnyddio ysgrifen fras fel ei bod yn hawdd ei darllen o bell
- Dylech chi ddewis eich lliwiau'n ofalus, mae lliwiau sy'n cydweddu yn gweithio'n dda ac yn gwneud eich neges yn haws ei darllen

Penderfynu ar neges:

- Dylai eich neges fod yn glir
- Falle byddwch chi am ychwanegu delwedd neu symbol
- Gallech chi ddefnyddio rhigwm neu slogan i dynnu sylw at eich neges
- Peidiwch â gorlenwi'r faner — dim mwy na 7 gair ar bob llinell

Awgrym ychwanegol: Os ydych chi'n disgwyl sylw yn y cyfryngau, gofalwch fod dwy ochr i'ch baner (mae hynny'n golygu bydd gwell siawns iddi gael ei dal ar gamera).

Gweithredu fel Grŵp

Gweithredu fel Grŵp yw pan fydd pobl yn dod at ei gilydd mewn man cyhoeddus ac yn perfformio. Gall Gweithredu fel Grŵp gael effaith fawr ar aelodau o'r cyhoedd, ac mae'n ffordd glyfar a difyr o sicrhau bod eich neges yn cael ei chlywed.

Beth gallwn ni wneud?

Mae llawer o wahanol ffyrdd o Weithredu fel Grŵp. Gallech chi ddewis canu, dawnsio, neu berfformio'r gair llafar. Gallai eich grŵp wisgo i fyny neu greu ffrâm rhewi.

Eich Grŵp

Dylai eich Grŵp Gweithredu gynnwys aelodau rydych chi'n eu nabod yn unig, er mwyn gwneud yn siŵr bod eich neges yn cael ei chyfleu'n glir ac yn ddiogel.

Pethau Technegol

Dylech chi gyfyngu cymaint â phosib ar yr offer technegol. Os bydd angen i chi ddefnyddio socedi plygiau neu feicroffonau, bydd angen i chi ofyn caniatâd cyn y digwyddiad.

Gwisgoedd a phropiau

Gallech chi ddefnyddio gwisgoedd tebyg, symudiadau dawns, baneri neu symudiadau syml fel clapio i ddod â'ch grŵp yn fyw a denu sylw pobl.

Amser a Lleoliad

Mae cael hyd i leoliad da, diogel yn allweddol os yw Gweithredu fel Grŵp i weithio. Byddwch chi hefyd am ystyried yr adeg orau i gael y sylw mwyaf (petaech chi'n defnyddio'r ysgol fel lleoliad, gallai amser cinio fod yn syniad da).

Sicrhau Caniatâd

Siaradwch ag oedolyn sy'n cefnogi eich grŵp (gallen nhw fod yn athro/weithiwr ieuenctid) i sicrhau bod gennych chi ganiatâd i berfformio'n gyhoeddus a'ch bod chi i gyd yn gallu cyrraedd yno ac adref yn ddiogel. Os yw eich grŵp yn bwriadu perfformio mewn lleoliad cyhoeddus, cysylltwch â nhw'n gyntaf i sicrhau eich bod chi ddim yn mynd i drwbwl. Dewch o hyd i berson cyswllt yn y lleoliad a rhoi manylion eich cynlluniau iddyn nhw. Esboniwch na fydd y cynlluniau hynny'n amharu ar fynediad i'r cyhoedd nac yn achosi unrhyw ddifrod i'r adeilad.

Enghreifftiau o Weithredu gan Grwpiau

One Billion Rising — Cynhyrchodd y grŵp gweithredu hwn fideo er mwyn i aelodau o'r cyhoedd ddysgu symudiadau'r ddawns, ac yna gwneud cais am ymuno â nhw yn ymyl tirnodau enwog ar draws y byd er mwyn sefyll i fyny yn erbyn trais yn erbyn benywod a merched. Daeth Benywod a Dynion at ei gilydd mewn mwy na 207 o wledydd.

Gwrthryfel Difodiant / Extinction Rebellion — "Adar Pinc y To" — Bu Protestwyr Gwrthryfel Difodiant (XR) yn gwisgo i fyny fel awyrennau pinc i berfformio ar draeth yn Abertawe yn ystod Sioe Awyr Abertawe.

Crefftyddiaeth

Defnyddiwch grefftau i rannu eich neges mewn ffordd greadigol. Mae llawer o syniadau ar-lein ar gyfer defnyddio celf i rannu eich neges. Gall crefftyddiaeth fod yn llawer o hwyl i'w wneud a hefyd yn ddifyr i bobl eraill edrych arno a darllen am eich neges.

I gael syniadau crefftwait, rydyn ni'n awgrymu edrych ar Agenda:

Agenda Cynradd/Uwchradd

<http://www.agenda.cymru/>

Geiriau

Mae geiriau yn offeryn grymus i'ch helpu i gyfleu eich neges i gynulleidfa eang.

Gall geiriau sicrhau eich bod chi'n "cael eich gweld" mewn llawer o wahanol ffyrdd. Dyma ambell enghraifft:

Gair llafar/barddoniaeth:

Mae'r gair llafar yn wych ar gyfer perfformio, gan grŵp neu unigolyn. Gallwch chi ddefnyddio barddoniaeth ar bosteri neu daflenni i gyfleu neges eich grŵp mewn modd emosiynol neu gofiadwy.

Cân/rap:

Mae llawer o enghreifftiau o ganeuon enwog sydd wedi cynyddu ymwybyddiaeth o ymgyrch. Gallai hyn fod yn syniad da os oes cantorion neu awduron caneuon yn eich grŵp.

Erthygl Papur Newydd / Blog:

Rhowch y newyddion diweddaraf am waith y grŵp i bobl! Mae llunio postiad blog neu erthygl papur newydd yn ffordd wych o rannu llwyddiannau a neges y grŵp.

Chwilio am Ysbrydoliaeth?

Caneuon

"Imagine" gan John Lennon

"Yma o Hyd" gan Dafydd Iwan

"Superheroes" gan Stormzy

Cerddi

"First They Came..." gan Martin Niemoller

"Caged Bird" gan Maya Angelou

"Help" gan Casia William